FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU

DYDD MAWRTH 5 HYDREF 2021
'ZOOM'
7.00YH

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Caryl Haf **IS-GADEIRYDD:** Mr Hefin Evans

Presennol: Caryl Haf (Cadeirydd y Cyngor); Hefin Evans (Is-gadeirydd y Cyngor); Sian Healy (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cystadlaethau); Kathryn Jones (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli); Nerys Lewis (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Rhyngwladol);Niall Evans (cadeirydd blaenorol yr Is-bwyllgor Rhyngwladol); Aled Thomas (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata); William Jones (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Materion Gwledig); Carys Harts (Is-gadeirydd y Fforwm Ieuenctid) Emma Rees (Brycheiniog); Iestyn Owen, Carys Thomas ac Aled Thomas (Sir Gaerfyrddin; Meirian Morgan, Dewi Davies ac Esyllt Ellis Jones (Ceredigion); Elain Jones a Gwenno Davies (Clwyd); Gwen Thomas ad Meinir Owen (Eryri); Kate Thomas ac Elen Williams (Morgannwg); Anna Prysor Jones (Meirionnydd); Aled Rees, Lliwen Jones ac Elin Lewis (Maldwyn); Samuel Kurtz, Delun Evans (Sir Benfro); Rhys Richards, Elliw Griffith a Fflur Powell-Roberts (Ynys Môn); Elin Orrells (Aelod Iau y Flwyddyn); Hedd Pugh, Iwan Meirion-Lloyd Williams, Dafydd Jones, Kate Miles, Mared Jones, Rhodri Evans and Jayne Jones (Aelodau Cyfetholedig); Ed Dungait a Rachel Goldien (FfCCFfI).

HEFYD YN BRESENNOL: Mared Jones (Cyfarwyddwr CFfI Cymru); Anna Jones (Swyddog Marchnata a Chyfathrebiadau); Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol); Edna Jones (Cadeirydd Cymdeithas y Staff); Gwyneth Thomas (Trefnydd Sirol Gwent a Morgannwg); a Hefin Jones (Cyfieithydd).

C/11/2021 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod mis Hydref y Cyngor a'i chyfarfod cyntaf o'r Cyngor fel Cadeirydd CFfI Cymru.

Croesawyd yr holl gynrychiolwyr a'r aelodau cyfetholedig oedd yn bresennol.

Nododd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cymryd cofnodion. Roedd cyfieithiad ar gael – profwyd y cyfleuster.

Gofynnwyd i'r sawl oedd yn dymuno gofyn cwestiynau eu nodi yn y blwch sgwrsio neu droi eu microffon ymlaen â rhannu eu safbwyntiau, gan nodi eu henw a'u rôl.

At ddibenion pleidleisio, defnyddid Vevox unwaith yn rhagor. Roedd y ddolen yn y blwch sgwrsio.

Rhannwyd calendr gweithgareddau'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cyfarwyddwr ers Gorffennaf 2022 ar y sgrin.

Roedd y Cadeirydd yn falch o weld clybiau a siroedd yn cynnal cystadlaethau wyneb yn wyneb lle'r oedd hynny'n bosibl o fewn y canllawiau newydd, a llongyfarchwyd pawb.

C/12/2021 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhodri Lewis (Trefnydd Ffederasiwn Sir Gaerfyrddin); Abbie Williams (Gwent); Katie Davies (cyn-gadeirydd); Katie Court (cyn-gadeirydd yr Is-bwyllgor Cystadlaethau)

C/13/2021 **YMGYRCH Y CADEIRYDD 2021/2022**

Fe wnaeth Caryl Haf hysbysu pawb mai'r elusen o'i dewis oedd Cymdeithas Alzheimer Cymru ac y byddai'n cydweithio â'r Ffederasiynau i drefnu tri chinio gyda'r hwyr ledled Cymru yn ystod y flwyddyn oedd o'u blaen.

C/14/2021 **RÔL AELODAU'R CYNGOR (CYFARWYDDWYR)**

Rhannwyd rôl aelodau'r Cyngor ar sgrin Zoom.

C/15/2021 **DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddatgan unrhyw fuddiannau oedd ganddynt yn y materion oedd yn cael eu trafod.
Fe wnaeth Mared Jones ddatgan buddiant oherwydd roedd hi'n aelod cyfetholedig ac yn Gyfarwyddwr dros dro CFfI Cymru.

C/16/2021 **COFNODION**

Ar ôl cylchredeg cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021, cadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cynigydd: Esyllt Ellis Jones
Eilydd: Sam Kurtz

C/17/2021 **PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

C/18/2021 **GOHEBIAETH**

Taith Materion Gwledig ar 9 Hydref i ymweld â Llaeth Jenkins, Aber-Innovation a Thrawscoed, Prifysgol Aberystwyth – enwau at Anna Jones.

C/19/2021 **DERBYN ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU:**

a) Cystadlaethau - Miss Siân Healy

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Cyfarfu'r is-bwyllgor ar 21 Medi.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

b) Cyllid a Rheoli – Kathryn Jones

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Cyfarfu'r is-bwyllgor ar 31 Awst.
2. Fe wnaeth Ceri Llwyd o Ashmole & Co fynychu'r cyfarfod cyn y CCB. Anogodd Ceri CFfI Cymru i ailadeiladu'r cronfeydd wrth gefn.
3. Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a Rhodri Lewis (Swyddog Cyllid) yn brysur yn diweddaru enwau'r Ymddiriedolwyr ar wefan y Comisiwn Elusennau.
4. Diolchodd y Cadeirydd i Rhodri Lewis am ei waith ar gyfer CFfI Cymru.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:
Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

c) Digwyddiadau a Marchnata – Aled Thomas

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:
1. Nododd Aled ei fod wedi'i ailethol yn Gadeirydd newydd ac etholwyd Elliw Griffith yn is-gadeirydd.
2. Nododd Aled fod angen i'r pwyllgor ystyried strategaeth marchnata.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:
Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

d) Rhyngwladol – Nerys Lewis

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:
Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

e) Materion Gwledig – William Jones
Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:
1. Taith Materion Gwledig ar 9 Hydref i ymweld â Llaeth Jenkins, Aber-Innovation a Thrawscoed, Prifysgol Aberystwyth – enwau at Anna Jones.

2. Diolchodd William i Clare James, y Cadeirydd blaenorol, am ei holl waith a'i hymrwymiad i'r rôl dros y flwyddyn a aeth heibio.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:
Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

3. Fforwm Ieuenctid

1. Hysbysodd Caryl Haf y Cyngor fod Carys Harts wedi cael ei hethol yn Gadeirydd newydd y Fforwm Ieuenctid a bod Carys Philips wedi cael ei hethol yn is-gadeirydd newydd.
2. Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus iawn rhwng y Fforwm Ieuenctid a Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Medi.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:
Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

4. Gweithgor yr Adeilad – Dafydd Jones

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Nododd Dafydd ei fod yn cydweithio â Mared Jones ac yn cysylltu â'r Pensaer.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:
Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

5. Personél a Thâl – Caryl Haf

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:
Diolchodd Caryl Haf i Huw Jones ac Angharad Thomas am gefnogi swyddfa CFfI Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd blaenorol. Fe wnaeth Caryl Haf groesawu Rhianwen Jones ac Anna Jones i'r tîm. Hefyd, fe wnaeth Caryl Haf groesawu Claire Powell yn ôl wedi ei habsenoldeb mamolaeth.
Sefyllfa bresennol:
Mared Jones, Cyfarwyddwr (1 diwrnod)
Helen Evans, Swyddog Gweithrediadau – Materion Gwledig (1 diwrnod)
Claire Powell, Rheolwr Cyllid a Gweinyddu (1 diwrnod yn Hydref)
Rhodri Lewis, Swyddog Cyllid (2 ddiwrnod)
Rhianwen Jones, Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol
Anna, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu0}
Megan Jones – Swyddog Gweinyddol (2 ddiwrnod).
Ann Hammonds (2 awr yr wythnos)

Diolchodd Caryl Haf i FfCFfI Sir Gaerfyrddin a CAFC am eu cefnogaeth trwy rannu adnoddau staff.

Hysbysodd Caryl Haf y Cyngor y bydd y Prif Swyddog Gweithredol newydd yn cychwyn ei waith ar 22 Tachwedd.

Nodwyd fod y swyddi canlynol yn cael eu hysbysebu ac y byddai'r dyddiad cau ar 12 Hydref am hanner dydd.
Swyddog Datblygu'r Gymraeg
Swyddog Gweithrediadau – Materion Gwledig a Gwaith Ieuenctid

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:
Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

C/20/2021 **FfCCFfI**

Cafwyd adroddiad gan Rachel Goldie am waith FfCCFfI.
Hysbysodd Rachel y Cyngor fod cyfanswm yr aelodau ar ddiwedd Medi yn 3,000, oedd yn gadarnhaol iawn. Bu'n fis prysur a chynhaliwyd y cystadlaethau blodau a choginio yn Sioe Malvern. Fe wnaeth Rachel longyfarch Sir Benfro ar eu llwyddiant. Hefyd, cynhaliwyd y diwrnod chwaraeon y dydd Sul blaenorol. Fe wnaeth Rachel atgoffa pawb i fynychu Diwrnod y Cadeirydd yng Nghaerdydd.

Roedd angen i'r Cyngor ethol aelodau i gynrychioli CFfI Cymru ar bwyllgorau dilynol FfCCFfI:
AGRI, Cystadlaethau, Aelodaeth a Marchnata, Datblygiad Personol, Fforwm Ieuenctid. Penderfynodd y Cyngor gynnwys y mater hwn yn agenda cyfarfod nesaf y Cyngor.

Enwebwyd Aled Thomas i gynrychioli Cymru ar Is-bwyllgor Rural Youth Europe, a derbyniodd Aled.

C/21/2021 **AELODAETH**

Rhannwyd ffigurau aelodaeth diwedd y flwyddyn ar y sgrin fel y gallai'r aelodau eu hystyried. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau sydd wedi cefnogi yn ystod blwyddyn y pandemig a gobeithiai y byddai'r aelodaeth yn cynyddu yn ystod y flwyddyn yn sgil rhagor o gystadlaethau wyneb yn wyneb.

C/22/2021 **EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD**

Nodwyd mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor fyddai dydd Sadwrn 22 Ionawr 2022 ar faes y sioe, neu ar ddydd Iau 20 Ionawr 2022 trwy gyfrwng Zoom pe byddai unrhyw gyfyngiadau yn sgil Covid-19.

Roedd yr eitemau i'w cynnwys yn yr agenda yn cynnwys ethol cynrychiolwyr ar is-bwyllgorau FfCCFfI.

C/23/2021 **UNRHYW FATERION ERAILL**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am weithio gyda'r 5 Gwlad i gwblhau 5,000 milltir.

Hysbysodd y Cadeirydd fod sgript pantomeim CFfI S4C yn barod ac atgoffodd bawb i hysbysu'r swyddfa os oedd ganddynt ddiddordeb mewn cyfranogi.

Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa pawb y byddai Eisteddfod CFfI Cymru yn cael ei chynnal ar 20 Tachwedd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

Dymunodd y Cadeirydd ben-blwydd hapus iawn yn 40 i Iwan Meirion.

Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol, felly diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau a chyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben am 8.05yh.

Llofnod: _____ **Dyddiad:** _____